OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 17 (Cy.6) (C.1)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

GORCHYMYN DEDDF GOFAL PLANT 2006 (CYCHWYN RHIF 1) (CYMRU) 2008

Wedi'i wneud - - 8 Ionawr 2008

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 109(2) o Ddeddf Gofal Plant 2006(**1**), ac a freiniwyd ynddynt hwy bellach(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Gofal Plant 2006 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gofal Plant 2006.

Cychwyn

2. Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn dod i rym ar 31 Ionawr 2008:—

(a) Adrannau 22 i 29, mewn perthynas â swyddogaethau cyffredinol Awdurdodau Lleol yng Nghymru;

(b) Adran 30 (dehongli Rhan 2);

(c) Adran 101 (darparu gwybodaeth am blant: Cymru);

(ch) Adran 102 (datgymhwysiad ar gyfer cofrestru o dan Ddeddf Plant 1989).

3. Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn dod i rym ar 1 Ebrill 2008:—

(a) Adran 103(1) i'r graddau y mae'n berthnasol i ddarpariaethau paragraff 28 o Atodlen 2 y nodir yn Erthygl 3(b) isod;

(b) Paragraff 28 o Atodlen 2.

(**1**) 2006 p.21.
(**2**) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.